



FARMING
connect
cyswllt
FFERMIO

Cyfnewidfa Rheolaeth Cyswllt Ffermio

Sarah James

Dulliau eraill o ddefnyddio tail dofednod

Gogledd Iwerddon - Safle treulio anaerobig - 100% tail cywion brwylio (£23 miliwn o gostau sefydlu)

Yr Alban – Llosgydd tail - 100% tail (£2 miliwn o gostau sefydlu)

Yr Iseldiroedd – Llosgydd tail - 100% cymysgedd o dail a'r deunydd o dan yr ieir yn sgil cynhyrchu dofednod (155 miliwn Ewros o gostau sefydlu)

Lloegr – Safle peledu - 100% tail (£2.5 miliwn o gostau sefydlu)

Ebrill 2019

1 Cefndir

Ar ôl arallgyfeirio i gynhyrchu wyau maes, deuthum yn ymwybodol o'r problemau cynyddol ynglŷn â gwaredu tail a gwartaith yn sgil cynhyrchu dofednod.

Mae dwysedd uchel iawn o ffermydd dofednod yng Nghanolbarth Cymru. Ni all y rhanbarth ymdopi â graddfa'r tail a gynhyrchir, ac mae angen cynyddol i ddod o hyd i ddulliau eraill o droi'r gwastraff hwn yn ased ac ychwanegu llif incwm pellach.

Roeddwn eisiau edrych ar brosesu gwartaith/tail ar gyfer cynhyrchu ynni gwyrdd i allu gwrthbwyso ôl troed carbon y sector a chyfrannu at faterion ehangach twf ac economi gwledig Powys. Y system oedd yn bodoli oedd: safle treulio anaerobig (a'r unig un yn gweithio'n llwyr ar dail dofednod); safle llosgi yn yr Iseldiroedd ar raddfa enfawr; enghraifft ar fferm i edrych ar arbedion maint, ac yn olaf, peledu, a fyddai'n system symlach ond ni fyddai unrhyw ynni'n cael ei gynhyrchu gyda'r dull hwn.

2 Y Daith

Rwyf wedi dysgu bod unrhyw brosiect i brosesu tail a gynhyrchir wrth gynhyrchu dofednod yn gofyn am lefel uchel o fuddsoddiad, gyda chanlyniadau'n amrywio a defnyddiau terfynol

ar gyfer sgil-gynhyrchion y drefn brosesu a phrosesu'r cynnyrch crai heb unrhyw fantais eilaidd, fel cynhyrchu ynni.

Mae'r amrywiaeth o ran ansawdd/dull ffermio ac ansawdd y gwastraff yn pennu sut y gellir ei ddefnyddio.

Mae manteision ac anfanteision yn perthyn i'r tair proses a welais yn gweithio (treulio anaerobig, llosgi a pheledu ar raddfa enfawr ac ar y fferm) ond maent hefyd yn dibynnu ar grantiau gan y llywodraeth (tariffau bwydo i mewn) wrth ystyried cynhyrchu ynni gwyrdd. Mae hefyd yn dibynnu'n fawr ar gyflenwad sicr o'r cynnyrch crai o'r fferm.

Bydd yr ateb yn galw am gydweithio rhwng grwpiau o ffermydd yn gweithio gyda'i gilydd. Hefyd bydd angen cynnwys y diwydiant ehangach o safbwynt porthiant/contractau/pecynnu.

3 Camau Nesaf

Rwyf eisoes wedi rhoi cyflwyniad i fy arweinydd Agrisgôp a grŵp bach yn cynnwys Dŵr Cymru, Agora, nifer o ffermwyr, ac ymgynghorwyr iechyd pridd. Gwahoddwyd Cyfoeth Naturiol Cymru ac er iddynt dderbyn y gwahoddiad nid oeddent yn bresennol.

Rwyf wedi cofrestru'r enw, Circularfarming.co.uk, i sefydlu gwefan i gasglu data er mwyn deall graddfa'r broblem yn well.

Mae angen i ni ddadansoddi'r dulliau ffermio ar y ffermydd sy'n cynhyrchu'r tail. Faint ohono sy'n cael ei ddefnyddio ar y fferm? Faint mewn gwirionedd sydd ei angen ar y ffermydd hyn ac am ba mor hir? Mae angen i ni wybod faint o dail 'DROS BEN' nad oes mo'i angen, ar y fferm, i wella'r tir. Mae angen cyfrifo hyn i ddechrau deall y dulliau'n well h.y. treulio anaerobig, llosgi a pheledu neu opsiwn arall na ymchwiliwyd iddo eto fel compostio, a allai fod yn addas i lai o'r cynnyrch crai yn hytrach na'r lefelau uchel a ragwelir fel y tybir yn ystod y cam cychwynnol hwn.

Rydym wedi cael caniatâd a byddwn yn mynd ati i sefydlu grŵp trafod penodol (Agrisgôp) i drafod manylion pa ddata fydd angen i ni ei gasglu i gael ymddiriedaeth o fewn yr ardal leol i sefydlu'r wefan. Byddwn yn ystyried dadansoddiad tail yn y pridd a defnydd hirdymor ac effaith defnyddio'r tail.

4 Prif Negeseuon i'r Diwydiant

1. Mae hwn yn fater y mae angen rhoi sylw iddo - nid yw gwastraff dofednod yn cael ei ddefnyddio mewn cynllun hirdymor 'gwybodus' ar gyfer gwella tir ac mae gwaredu tail dofednod yn creu achosion o lygredd ym Mhowys (fel y cofnodwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru a Dŵr Cymru). Mae grwpiau trafod wedi pwysleisio nad yw ffermwyr yn cynnal digon o brofion, a phan maen nhw'n gwneud hynny, nid ydynt yn deall yn llawn y ffactorau amrywiol ac effaith defnyddio'r cynnyrch crai ar y tir.
2. Nid oes un ateb hawdd/delfrydol.

3. Bydd angen i ni weithio gyda'n gilydd ar draws y diwydiant i ddod o hyd i ateb cynaliadwy yn yr hirdymor sy'n gallu sicrhau y gellir ymdrin â materion o bwys, fel allyriadau nwy tŷ gwydr, i gyrraedd targedau'r diwydiant.
4. Mae angen deall y broblem yn well, a'i mesur.
5. Gallai'r ateb gyfrannu at sicrhau bod y diwydiant dofednod ehangach yn dod yn garbon niwtral.